Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau Gyrwyr

# Gyrwyr cerbydau neu feiciau modur sydd wedi cael strôc neu pwl o isgemia dros dro (TIA).



## Pryd sydd angen ichi roi gwybod inni

**Nid oes rhaid ichi roi gwybod inni os ydych wedi cael un TIA neu strôc. Fodd bynnag, mae angen ichi roi gwybod inni os ydych wedi dioddef o unrhyw gymhlethdodau a restrir dros y dudalen.**

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INF188/3W
10/23

## Beth sydd angen ichi ddweud wrthym amdano

**Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid ichi ddweud wrthym os oes unrhyw un o'r canlynol yn gymwys:**

- un mis yn dilyn y TIA neu strôc rydych yn parhau i ddioddef o:
  - (i) wendid yn eich breichiau neu'ch coesau
  - (ii) problemau gyda'ch golwg (er enghraifft: colli maes golwg, gweld dwbl neu ddiffyg sylw gweledol)
  - (iii) problemau gyda chydsymud, y cof neu ddealltwriaeth
- rydych wedi cael unrhyw fath o drawiad
- roedd arnoch angen llawdriniaeth ar yr ymennydd fel rhan o'r driniaeth ar gyfer y strôc
- mae unigolyn sy'n darparu eich gofal meddygol wedi mynegi pryderon ynglŷn â'ch gallu i yrru'n ddiogel
- rydych yn dal trwydded yrru Cerbyd Nwyddau Mawr (LGV) neu Gerbyd Cludo Teithwyr (PCV) (Grŵp 2) gyfredol

Os nad ydych yn sicr os yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol ichi, trafodwch gyda'ch meddyg.

Mae'n bosib na fydd anabledd yn eich breichiau neu'ch coesau yn dilyn strôc yn eich rhwystro rhag gyrru. Efallai y gallwch oresgyn anawsterau gyrru drwy yrru cerbyd awtomatig neu un sydd â sbardun neu frêc yn cael ei weithredu â llaw.

Os oes unrhyw gyfyngiadau ar y mathau o gerbydau y gallwch eu gyrru, rhaid dangos y rhain ar eich trwydded yrru.

**Er lles diogelwch y ffordd, rhaid ichi sicrhau y byddwch yn gallu rheoli car modur yn ddiogel bob amser.**

## Sut i ddweud wrthym

Os yw'ch meddyg neu weithiwr arbenigol yn dweud wrthych i'n hysbysu ni, gallwch wneud hyn ar-lein (am drwyddedau ceir a beiciau modur) neu'n mae'n rhaid ichi lenwi'r holiadur meddygol priodol.

I'n hysbysu ar-lein, gall hwn gael ei wneud ar-lein yn **https://www.driving-medical-condition.service.gov.uk/cy**

Mae holiaduron ar gael i'w lawrlwytho yn: **www.gov.uk/health-conditions-and-driving**

Cwblhewch a'i bostio i:

Grŵp Meddygol y Gyrwyr
DVLA
Abertawe
SA99 1TU

Mae holiaduron ar gael i'w lawrlwytho yn:

**0300 790 6806** neu **0300 790 6819** am y llinell uniongyrchol Gymraeg

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion a gwasanaethau diweddaraf.**

**gov.uk/dvla-cymraeg**